

Papur Pawb

Pris: 50c

Tachwedd 2010

Rhif 363



Tud 8

Gwilym Jenkins, Llywydd y Gymdeithas, yn cyflwyno Tarian Rhosgoch i Dafydd Jenkins a'r meibion, Tanyrallt, gyda'r aelodau yn y cefndir.

tud 3
Pobl a Phethe

Tud 4/10
Ysgolion

Tud 9
Llyfrau Newydd

Tud 12
Chwaraeon

Taith fythgofiadwy i Fadagascar

Yn ddiweddar bu Catrin M S Davies ar daith arbennig i ddilyn ôl traed y cenhadon cynnar yr holl ffordd i Fadagascar. Aeth yng nghwmni'r newyddiadurwr Dylan Iorwerth a chafodd y cyfan ei ffilmio ar gyfer rhaglen i'w darlledu ar S4C. Dyma beth o'r hanes...

Roedd hi'n gyffrous clywed bod y syniad wedi cydio yn swyddogion S4C gymaint ag y cydiodd ynof fi a Dylan a llawenydd mawr ein bod ni'n cael mynd i olrhain y stori ar yr Ynys Fawr. Taith fan, dwy awyren a cherbyd hynafol a chyrhaeddodd ni ben ein taith mewn gwesty yng nghanol Antananarivo – prifddinas Madagascar – yn hwyr un nos Wener. Roedd hi wedi cymryd pedair awr ar hugain union i gyrraedd yno. Dim byd tebyg i wyth mis o fordaith y cenhadon cynnar.

Roedden ni wedi holi sawl un cyn mynd am y wlad ac am beth i'w ddisgwyl ond doedden ni ddim yn barod. Roedden ni'n disgwyl gweld gwlad dlawd ond nid mor dlawd â hon, yn disgwyl gweld cardota ond nid cweit cymaint â hyn. Roedden ni'n disgwyl cyfarfod â phobol oedd yn gyfarwydd â stori'r cenhadon cynnar hynny ond nid cymaint ag y cyfarfuom.

Roedden ni'n mynd o gapel i ysgol neu goleg yn disgwyl ambell garreg ar wal neu garreg fedd yn olrhain y stori ond roedd llawer mwy na hynny. Roedd pobol wedi clywed am Thomas Bevan a David Jones yn y capeli a'r ysgolion ac roedd dylanwad canu cynulleidfaol Cymru i'w glywed yn drwm ar y canu. Roedd hanes y genhadaeth yn rhan o hanes yr Ynys a phawb yn dysgu amdano yn yr ysgol.

A'r croeso – roedd dweud ein bod o Gymru ac yn gwneud rhaglen am y cenhadon yn rhyfeddu pobol Madagascar. Roedd pawb am ein helpu i ddweud y stori a hefyd i ddangos eu hynys goch anhygoel i'r byd. Mi deithion ni o'r brifddinas i Tamatave – y man lle glaniodd y Cymry am y tro cynta yn Awst 1818 - a gweld rhyfeddodau'r Ynys wrth i ni deithio mewn fan fach am naw awr! Mae'n ynys hynod ffrwythlon a phrydferth ac yn gartre i anifeiliaid unigryw. Y lemurs enwog sydd ond yn byw yn Madagascar, y coed rhyfeddol a'r fanila hyfryd. Ond ar ein taith mi welon ni ddegau o lorïau anferth yn teithio o'r porthladd i ganol yr Ynys. Lorïau yn eiddo i gwmnïau tramor sy'n cloddio am



fwynau ac yn allforio cyfoeth Madagascar. Mae gan y wlad fwynau anhygoel ond tramorwyr sy'n manteisio ar hynny. Mae 70% o boblogaeth yr Ynys yn byw o dan lefel cyni. Yn byw ar lai na doler y dydd.

Dwi ddim yn mynd i ddweud mwy o'r stori fan hyn – rhaid i chi wylïo'r rhaglen am hynny. Mae'n stori ryfeddol. Stori am rym penderfyniad a chredo'r cenhadon ond hefyd am bobol hynaws a hyfryd yr Ynys gyfoes.

Catrin M S Davies am



Darlledir

**O DDYFFRYN AERON I
FADAGASCAR**

NOS SUL YR 21AIN O
DACHWEDD AM 8.15 PM
AR S4C.

Cynhyrchiad gan gwmni
Unigryw.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis.	(01970) 832473
Tynnu lluniau:		
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL	
Parsel Henllys:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Eglwysfach:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Taliesin:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Tal-y-bont:	Sian Saunders, Is y Coed, Taliesin	832230
	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
	Kathleen Richards, Y Bryn	832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog	(01654) 781260
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Geraint Pugh, Dôl Pistyll	832433
Is-gadeirydd:	Arthur Dafis, Murmawr, Tal-y-bont	
Ysgrifennydd:	Sian Pugh, Dôl Pistyll	832433
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	832560
Aelodaeth:	Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont	832442
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu:	Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Bledwyn Huws (Tanygrifiadau)	

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyr

Annwyl Olygydd

Trist iawn oedd darllen am farwolaeth Evan James, Tre'r Ddôl, yn eich rhifyn diwethaf. Er mai dim ond ychydig o weithiau y siaradais ag e, roedd yn ddyn cwrtais, cyfeillgar iawn, llawn straeon difyr am y dyddiau a fu yn Nhref'r Ddôl a Taliesin.

Ers symud i fyw ym Mrynarian, Taliesin dair blynedd yn ôl, rwyf wedi ymddiddori'n fawr iawn yn hanes yr ardal, ei chymdeithas, ei gweithfeydd, ei siopau, tafarndai, capeli a'i chymeriadau. Rwyf hefyd wedi mwynhau ymchwilio i hanes fy nhŷ a cheisio rhoi'r darnau jig-so at ei gilydd a phwy oedd yn perthyn i bwy. Mae llawer o bobl yn yr

ardal o hyd sydd yn llawn atgofion o'r ddau bentref, a hoffwn drio casglu a chadw tipyn o'r hanes yma. Byddai modd gwneud hyn drwy siarad â phobl, efallai dros baned, a recordio unrhyw atgofion difyr, diddorol a doniol sydd ganddynt. Mae'n ffordd dda iawn o gasglu hanes lleol oherwydd bod cyfoeth acen, llais iaith yn cael eu cadw hefyd. Yn y pendraw efallai y bydd hi'n bosibl i roi'r atgofion ar y wê er mwyn i bawb gael eu clywed. Os hoffai unrhywun o'ch darllenwyr gymryd rhan neu roi sylwadau, mae croeso i chi gysylltu â fi ar y manylion isod.

Tom Cosson
Brynarian, Tre Taliesin.
01970 832128

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Medi, Mare, Fran a Llio gydag Elgan yn dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Phil a Megan Mai (832384) gwynionydd@btinternet.com. Dylai'r deunydd fod yn llaw y golygyddion erbyn dydd Gwener 3 Rhagfyr a bydd y papur ar werth ddydd Gwener 10 Rhagfyr.

Cyfarfod Blynnyddol Ffrindiau Cartref Tregerddan

Nos Fercher
24 Tachwedd

7.00pm

yn y cartref
Croeso i bawb.

Diolch i Nic Dunkley, Dyffryn, Taliesin am 8 mlynedd o wasanaeth fel golygydd *Papur Pawb*. Cymrodd Nic at y swydd er mwyn gwella ei Chymraeg ar ôl bod yn dysgu'r iaith am chwe mlynedd cyn hynny. Mae Nic nawr yn gweithio trwy gyfrwng y *Gol Cyffredinol*

Dyddiadur

Tachwedd

- 14** Neuadd Goffa, Talybont
Sul y Cofio 10.45
- 14** Bethel 2 *Parch J.E. Wynne Davies*
Nasareth
Rehoboth 10 Bugail (Cymun)
- 15** Merched y Wawr 7.30
Neuadd
'Hel Atgofion' (Mair Jenkins a Mary Thomas)
- 17** Cymdeithas Farddol Talybont 8
Llew Du
- 18** Sefydliad Y Merched, Neuadd Goffa 2o'r gloch
Pnawn yng nghwmni Ruth Jen
- 19** Clwb Nos Wener, Llew Gwyn 8
Noson o Farddoniaeth Hywel Griffiths a Ffrindiau
Dan nawdd yr Academi
- 21** Bethel 10 *Parch Tudno Williams (C)*
Nasareth
Rehoboth 2 *Adrian P. Williams (R)*
- 27** Neuadd Goffa
Ffair Nadolig 2 o'r gloch
- 28** Bethel 2 *Dr Dafydd Tudur*
Nasareth 10 *Eifion Roberts (R)*
Rehoboth 5 Bugail

- 29** Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
pwyllgor 7.30

Rhagfyr

- 1** Cymdeithas Farddol Talybont 8 Llew Du
- 5** Bethel 10 Gweinidog **Nasareth** 11.15 Bugail (C)
Rehoboth 2
Parch Elwyn Pryse
- 8** Neuadd Goffa, Talybont
Pwyllgor y Neuadd
- 8** Merched y Wawr
Cinio Nadolig
Llanfihangel y Creuddyn
Gwraig Wadd - Mererid Jones
(Llywydd Cenedlaethol)
- 9** Sefydliad y Merched
Parti Nadolig
Neuadd Goffa 2
- 11** Clwb Nos Wener
Cinio Nadolig 7.30 ar gyfer 8
Llanfihangel y Creuddyn
gyda John Meredith
- 12** Bethel 10 Gweinidog **Nasareth** 12 Oedfa'r Plant
'Y Nadolig'
Rehoboth
Oedfa Nadolig y Plant
- 14** Rehoboth, Taliesin 2
Carolau gyda parti
Elenid Thomas

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:
Y Clerc, Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, Pengwern,
Tal-y-bont, Ceredigion, SY24 5EN
erbyn dydd Gwener 7 Ionawr 2011 fan bellaf.

Sioe Cardis 2010 Cymanfa Garolau a Swper

Capel Bethel, Tal-y-Bont

Nos Sul, Rhagfyr Sed
am 6 o'r gloch.

Arweinydd: Mr Geraint Thomas
Croeso cynnes i bawb.

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Phil a Juliet Regan, Free Trade Hall, Tre Taliesin, ar enedigaeth eu hwyres Abigail Hannah a'u hŵyr Oliver Philip a hefyd i rieni'r gefeillaid wrth gwrs, Bryn a Helen, sy'n byw yn Llundain.

Llongyfarchiadau hefyd i Richard a Liz Spencer, Tŷ Manceinion, ar enedigaeth eu hŵyr Daniel Silver i'w merch Maddy a'i phartner sy'n byw yn Norfolk.

Dymuniadau Gorau

Dymuniadau gorau i Haydn Ellis, Man-teg, sy'n dod dros driniaeth yn Ysbyty Treforys ar hyn o bryd, ac i Matthew Willis, Ystordy, sy'n gwella ar ôl triniaeth yn Ysbyty Bronglais.

Dymuniadau gorau hefyd i Mignon Rowlands, Glanhaul, sy'n aros i gael mwy o driniaeth ac i Emrys Humphreys, Llysteg, a gafodd lawdriniaeth ychydig wythnosau'n ôl. Peidiwch â'i gornwneud hi yn yr ardd Emrys!

Gwenyn Prysur y Pentre

Llongyfarchiadau i Richard Spencer, Tŷ Manceinion, am ennill y wobr gyntaf yn yr adran mêl golau yn Sioe Fêl Flynnyddol Cymdeithas Gwenynwyr Aberystwyth. Dim ond yn weddol ddiweddar mae Richard wedi dechrau cadw gwenyn. Hefyd, llongyfarchiadau mawr i Phil Regan, Free Trade Hall, am ennill Cwpan Her Barhaol Lloyn yn yr un sioe.

Penblwydd Hapus!

Penblwydd Hapus iawn i Dafydd Rowlands, Glanhaul, sy'n dathlu penblwydd arbennig ar 26 Tachwedd.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Ceri, Llwynglas a Dylan Jones, Gwerniago, Pennal ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

Brysiwch wella

Da clywed bod Bennett Jenkins, Ynys Capel wedi dychwelyd adre o'r ysbyty am yr eildro ac yn gwella.

Pobl a Phethe



Un o gemau cyntaf y tim dan 17 mlwydd oed ar Gae'r Odyn Galch ar 23 Hydref

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Graham a Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r-ddol a fydd yn dathlu eu priodas ruddem.

Priodas Berl

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Phil Davies a Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont, a David a Mair Jenkins, Ynyseidol, Ffwrnais, y ddau bwr wedi dathlu deng mlynedd ar hugain o fywyd priodasol ym ystod mis Hydref.

Cadair i Carys

Llongyfarchiadau i Carys Briddon, ar ennill ei chweched cadair eisteddfodol yn ddiweddar wrth gyfansoddi telyneg ar y testun 'Colli' yn Eisteddfod Gadeiriol Felinfach. Roedd 20 wedi ymgeisio.

Teledu a Radio

Braf oedd gweld Dr Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont, yn siarad yn awdurdodol ond yn ddifyr am y bardd Eifion Wyn gyda Mererid Hopwood a Tudur Dylan, ar y rhaglen deledu 'Gwlad y Beirdd' nos Fercher 6 Hydref. Ychydig ddyddiau'n diweddarach, roedd yn siarad ar raglen radio Dai Tomos ar nos Sul

am gefndir y rhaglen realaeth 'Snowdonia 1890', lle mae dau deulu'n treulio cyfnod yn byw bywydau tyddynwyr a chwarelwyr tlawd yn oes Fictoria.

Ar y Llwyfan

Edrychwch allan am Ioan Gwyn, Maesgwyn ar lwyfan Canolfan y Celfyddydau ar yr 2 o Ragfyr. Bydd i'w weld yng nghynhyrchiad diweddaraf Bara Caws, '100'.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Delyth Parry Huws, Henllan, Tal-y-bont, ar gael ei phenodi'n Llyfngellydd Plant gyda Llyfngell Ceredigion. Pob dymuniad da iddi.

Cyhoeddi Nofel

Llongyfarchiadau i'r Prifardd Hywel Griffiths, Garth, Tal-y-bont, ar gyhoeddi ei nofel gyntaf i blant, sef Dirgelwch y Bont (Gwasg Gomer, £4.99) nofel ffantasi wedi'i gosod yng nghyfnod Owain Glyndŵr a'r presennol. Mae Hywel, wrth gwrs, yn fwy adnabyddus fel bardd, a braf ei weld yn mentro i faes cwbl newydd.

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Heledd

Jones, Pistyll y Llan ar basio'i phrawf gyrru yn ddiweddar.

Penblwydd Hapus

Penblwydd Hapus i Claire Watkin, Heulfor, Tal-y-bont fydd yn dathlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed ar y 15fed o Dachwedd.

Addasu Atig

Da oedd gweld y gwaith mae Catrin Aeron a Darren yn gwneud ar eu tŷ yng Nghaerdydd. Cawsom gip ar y trawsnewid ar raglen Sioe'r Tŷ ar S4C yn ddiweddar.

Ŵyr Newydd

Llongyfarchiadau i Dorothy ac Anthony Green, Pantglas ar enedigaeth ŵyr bach newydd, Aron William, mab i'w merch Kelly a'i gŵr Mathew Bishop, Glan Seilo, Penrhynoch. Mae Lowri y chwaer fawr yn falch o groesawu Aron.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gydag Elaine a Mike Rowlands, Maesyfelin a'r teulu ar farwolaeth tad Elaine, Islwyn Owen.

Cydymdeimlwn â Gwesyn, Gerallt a Mair Evans Pantydwn a'u teulu ar farwolaeth chwaer Gwesyn a Gerallt, sef Mrs Enid Howells, Maesceirio, Bow St.

Cydymdeimlwn gyda Heulwen ac Ifan Astley, Central Stores ac Elfyn Jones, Hyfrydle ar farwolaeth ewythr iddynt.

Ar 25 Hydref bu farw Mrs Dorothy Thomas, gynt o Brynadda, Pentre-bach, gweddwr diweddar Cecil Rhys Thomas. Treuliodd Mrs Thomas, oedd yn 90 mlwydd oed, flynyddoedd olaf ei bywyd yng nghartref Plas y Dderwen, Caerfyrddin. Claddwyd ym Mynwent Gyhoeddus Tal-y-bont brynawn Gwener 5 Tachwedd. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i theulu a'i ffrindiau.

Dymuniadau Gorau

Brysiwch wella i Miss Pat Bayliss, Pen Parc, Tre'r Ddol a Mrs Marie Roe-Barnett, Coed y Garreg, Glandyfi sydd wedi cael lawdriniaeth yn ddiweddar.

Ysgol Llangynfelyn

Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch ar y cyd gydag Ysgol Talybont yng Nghapel Rehoboth, Taliesin ym mis Hydref. Cawsom gwmni aelodau o Daith Dewi Sant ac arweiniodd y Parchedig Wyn Morus y plant a'r rhieni mewn gweddi. Gwnaethpwyd y casgliad tuag at Apêl Llifogydd Pacistan.

Ymweliad â Fferm Ynys Tudor

Aeth Dosbarth Miss Davies ar ymweliad i Fferm Ynys Tudor ar ddechrau mis Hydref. Cerddodd y plant yno cyn cael cyfle i edrych o gwmpas y fferm. Dysgwyd am y gwahanol anifeiliaid ar y fferm a gofynnodd y plant gwestiynau i Mrs Teresa Jones. Diolchwn yn fawr iawn i Mr a Mrs Michael Jones, Fferm Ynys Tudor am ein croesawu ar yr ymweliad diddorol hwn.

Pacio Bagiau yn Archfarchnad Morrisons

Ar Ddydd Sadwrn Hydref 16eg aeth criw o blant, rhieni ac athrawon o'r ysgol i Archfarchnad Morrisons i bacio bagiau. Buont yn brysur iawn yn pacio bagiau cwsmeriaid yn ofalus. Ar ddiwedd y prynhawn casglwyd £224 tuag at gronfa'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Gwersi Beicio

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar basio eu Prawf Beicio yn ddiweddar. Da iawn chi Josh Mayhew, Deri Rose, Nansi Dingle, Nina Davies ac Isabel Hughes.

Prynhawn yng nghwmni Mr Erwyd Howells

Daeth Mr Erwyd Howells i'r ysgol ar ddiwedd mis Hydref i adrodd hanesion am y porthmyn i blant Cyfnod

Allweddol 2. Siaradodd am waith y porthmyn a dangosodd hen arteffactau i'r plant gan gynnwys dillad y byddai'r porthmyn wedi gwisgo. Uchafbwynt y prynhawn oedd y cyfle i wisgo fyny fel porthmon. Roedd Alfie Dean wrth ei fodd yn nillad y porthmon.

Bags2School

Eleni eto ym mis Hydref daeth fan fawr i'r ysgol i gasglu hen ddillad ac esgidiau. Casglodd y plant a'r rhieni dros 30 o fagiau a byddant yn cael eu pwyso yn warws y cwmni. Bydd yr ysgol yn derbyn canran o werth y dillad. Byddwn yn gwneud casgliad arall ym mis Mehefin.

Ymweliad â Denmarc

Ym mis Medi aeth Mrs Rhian Nemes i Ddenmarc fel rhan gyntaf o'n cysylltiadau Ewropeaidd. Mae'r ysgol wedi derbyn grant o'r Cyngor Prydeinig i alluogi aelodau o staff yr ysgol i fynd i ymweld ag ysgolion yn Ewrop. Rydym wedi ymuno ag ysgol yn Kolding, Denmarc, ysgol yn Rottenberg, yr Almaen ac ysgol yn Nulyn. Yn ogystal â chael y cyfle i weld ysgolion mewn gwledydd eraill bydd plant yr ysgolion yn gweithio ar brosiect o'r enw - "Ydych chi wedi clywed ...?". Byddant yn anfon gwybodaeth am yr ysgol ac am Daliesin a Thre'r Ddol i'r ysgolion eraill ac yn creu cymeriad a chwedl newydd draddodiadol ar y cyd. Edrychwn ymlaen at yr ymweliad nesaf i'r Almaen ym mis Chwefror.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Pwys 5120 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com



Disgyblion Blwyddyn 6 yn ystod eu prawf Beicio yn ddiweddar.



Ymweliad Mr Erwyd Howells i'r ysgol



Y disgyblion yn mwynhau yng nghanol y bagiau

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddevis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Dofednod Cwmtynant

Dofednod ffres o fferm leol.
Archebwch wydd, twrci, hwyaden neu gwy iâr erbyn y Nadolig
Cysylltwch â Dilwyn, Marion, Rhidian neu Elgan Evans
Tynant, Tal-y-bont 01970 832 257

Teyrnged

Una Morris (Wood gynt)

Ym Mirningham y ganed Una a doi i Borth ac Ynys Las ar ei gwyliau yn blentyn. Yna daeth yr Ail Ryfel Byd a chafodd ei hanfon i Aberystwyth fel evacuee, a dyna pryd gwnaeth gyfarfod ag Alwyn a phriodi a magu cysylltiad oes â theulu Morris Glennydd ac â Thal-y-bont. Buon nhw'n byw ym Mirningham tra roedd Alwyn yn astudio am radd Meistr yn y brifysgol yno, ac roedd llu o hanesion ganddi am John, fy nhad a brawd Alwyn, yn adeiladu car yn hytrach nag astudio ac Alwyn yn gaeth i'w lyfrau. Mae'n amlwg bod croeso ar eu haelwyd bob amser ac mai dyna lle'r ai nhad i gael ei ginio dydd Sul.

Wedi hir a hwyr aeth y ddau i fyw i Chandler's Ford ger Southampton lle bu Alwyn yn gweithio fel arolygydd ysgolion ac roedd Una'n wraig tŷ a ymfalchiai yn ei chartref, ei choginio a'i chroeso. Pan fethodd iechyd ei thad atyn nhw yr aeth i fyw, ac edrychodd ar ôl Alwyn yntau hefyd yn ystod ei frwydr â chanser nes ei farwolaeth cynnar yn ei 50au.

Daeth Una yn ôl i fyw i ardal Tal-y-bont ac Aberystwyth ac rwy'n cofio pan fyddem ni'n dwy'n gweithio yn siop fy modryb Valma – efallai na fydd pob un ohonoch yn cofio'r siop grefftau oedd wrth ymyl yr afon lle mae siop trin gwallt Richard bellach, ond dyna lle treuliais i fy hafau yn ystod gwyliau ysgol, a dyna lle fyddem ni'n dwy'n tendio'r twristiaid – yn gobeithio am law gan fyddai llawer mwy yn taro i mewn ar y dyddiau hynny.

Roedd Una yn aelod ffyddlon o gangen Tal-y-bont o'r WI lle câi gwmni da a llawer o fwynhad. Roedd hi'n byw yn Gerddi Ffynnon ac yno câi ofal gofalus gan Rita a Hefin, ac roedd ganddi lawer o ffrindiau. Roedd yn chwaer yng nghyfraith dryw i Valma ac yn ymwelydd cyson â'r Wern, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf ers i Ithel farw.

Bu farw'n sydyn yn ei chartref yn 88 oed a bydd colled ar ei hól.

Catrin Y Milton

Ceinwen Elizabeth Page (1936-2010)

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â Mr Gareth Evans, Swm-y-ffrwd, Bont-goch a'i frodyr Mr Geraint Evans a Mr Ken Evans a'r teulu ar golli eu chwaer, Mrs Ceinwen Elizabeth Page, ar 12 Hydref. Ganed Ceinwen ar 28 Tachwedd 1936, yr ifancaf o bedwar plentyn Llawrcwm-bach, Bont-goch, a derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Elerch, Ysgol Sir Ardwyn, a Choleg Addysg y Barri lle cymhwysodd fel athrawes. Ei swydd gyntaf oedd yn Ysgol Gynradd Yr Ystog (Churchstoke), ger Trefaldwyn, a symudodd o'r fan honno i bentref cyfagos Bausley i fod yn ddirprwy-brifathrawes ar yr ysgol gynradd leol. Yno y cyfarfu â Mr David (Dai) Page, ac fe'u priodwyd ar 26 Hydref 1963 yng Nghapel Coedway, Crew Green, ger Y Trallwng. Ym 1968 symudasant i bentref Baschurch yn Swydd Amwythig lle bu Ceinwen yn ddirprwy brif-athrawes hyd at ei hymddeoliad yn 1982. Bu'n weithgar iawn yn yr Eglwys leol, ac ymhlith ei diddordebau niferus oedd dawnsio a chadw'n heini. Bu'n rhedeg sawl hanner marathon ar gyfer elusennau amrywiol, ac roedd yn medru hwylio a sgio yn fedrus iawn. Byddai'n ymweld yn gyson â'i brodyr ym Mont-goch, ac roedd yn hoff iawn o gerdded llwybrau bro ei mebyd, a chael sgwrs gyda'r trigolion. Roedd hefyd yn mwynhau teithiau tramor yn gyson.

Cydymdeimlir yn fawr iawn hefyd gyda'i gwr Mr Dai Page, yn ei golled. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa yr Amwythig ar Ddydd Mercher, 27 Hydref, gyda'r gwasanaeth o dan ofal Y Parch Mike Powell pan ddaeth tyrfa luosog iawn ynghyd i dalu eu cymwynas olaf i un a oedd yn uchel iawn ei pharch yn ei chymuned ac a roddodd ddechreuad addysgol dda i gynifer o ddisgyblion.

RH



STORFA CANOLBARTH CYMRU

STORFA DODREFN



STORFA FUSNES ARCHIFAU



STORFA I FYFYRWYR



PACEDU



DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR
CCTV
WEDI GYNHESU
CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS

www.midwalesstorage.co.uk
 Heol Y Doll
 Machynlleth
 SY20 8BQ

Tel 01654 703592

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
 GWASANAETH GOLCHI
 DWFES MAWR
 CITS CHWARAEON



GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459 Mob: 07967235687
 Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
 Aberystwyth SY23 3SL

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batri a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Cwrw, Chips a Darlith Deg

Sioe un dyn am fywyd yn y coleg ydy Cwrw, Chips a Darlith Deg, *Cwmni Arad Goch*. Mae'n gomedi am fachgen o'r Cymoedd o'r enw Gary Jones ar ddiwedd ei dymor cyntaf yn y coleg.

Mae'r ddrama wedi'i lleoli yn ei stafell wely mewn neuadd breswyl a dydi'r set ddim yn rhy fawr ond wedi'i chreu yn dda iawn ac yn fanwl. Er bod y ddrama wedi'i lleoli yn y coleg roedd rhan helaeth ohoni yn hel atgofion am adre ac am lefydd ar hyd ei fywyd.

Roeddwn yn credu bod actio Gwydion Rhys yn dda iawn a'i fod yn arbennig am ddynwared pobl wahanol a newid o un cymeriad i'r llall mor gyflym a siarp. Roedd ganddo fwy nag ugain o gymeriadau i'w portreadu yn y ddrama ac yn dibynnu ar bropiau er mwyn dod â'r

cymeriadau'n fyw. Hefyd, i fi, roedd yn anhygoel sut oedd yr actor yn gallu cadw i fynd am gymaint o amser.

Roeddwn i'n hoff iawn o'r ddrama. Roedd yn ysgafn ac wedi gwneud i mi chwerthin llawer gwaith - yn enwedig ei ddynwarediad o'i chwaer fach. Fe wnes i hefyd fwynhau'r darn pan oedd yr actor yn dynwared tri chymeriad yn canu cerdd dant. Llwyddodd y darn hwn i greu darlun byw iawn o gystadlu ar gerdd dant a chreodd ymateb hwyllog iawn yn y Neuadd yn Nhalybont. Mae'n braf cael mwynhau dramâu gwahanol yn y Neuadd a chael profi'r ddrama efo pobl y pentref.

Roeddwn i wedi mwynhau yn arw ond dydw i ddim yn siŵr a fyddai'r sioe yn apelio at bob oedran.

Elan Elidyr a Jenô Lewis

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN


Pencefn, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Salon Leri
*Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard*
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llan-Gwener
(01970) 832 674

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch
ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:
01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 11982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.



We do right by you

CANOLFAN
M.O.T.

HUW
LEWIS



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batri
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

TEIARS
HUW
LEWIS
TYRES

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM



BFGoodrich

KUMHO TYRES

Ffôn 01970 636774

Sefydliad y Merched, Talybont

Mae mis Tachwedd yn fis prysur i aelodau Talybont gan fod dau ymweliad wedi eu cynnal yn barod. Ar yr 2il o Dachwedd mynychodd tair o'n haelodau y Cyfarfod Cyngor Sirol Blynyddol yn Aberaeron, lle cafwyd cyfle i wrando ar y siaradwr gwadd, Martin Bell, cyn-ohebydd rhyfel y BBC, newyddiadurwr ac AS. Y siaradwyr eraill oedd Mark Cole a soniodd am ddathliadau 900 mlwyddiant tref Aberteifi, a Nigel Nicholas a fu'n siarad am gwblhâd llwybr arfordir Ceredigion.

Ar Dachwedd y 3ydd aeth saith aelod o'r Clwb Llyfrau i'r Gelli Gandryll er mwyn pori trwy'r siopau llyfrau y mae'r dref mor enwog amdanynt.

Ar ddydd Iau y 18fed o Dachwedd am 2yp bydd yr arlunydd lleol Ruth Jên yn arddangos sut i wneud cardiau cyfarch, a chynhelir y Clwb Llyfrau nesaf ar Dachwedd y 25ain am 2.30yp. Bydd y ddau gyfarfod yn y Neuadd Isaf ac mae croeso cynnes i aelodau newydd bob amser.

Bontgoch

Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Elerch

Hyfryd oedd croesawu aelodau o eglwysi Penrhyn-coch a Chapel Bangor i gwrdd diolchgarwch am y cynhaeaf Eglwys St. Pedr, Elerch ar Ddydd Sul, 30 Hydref. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Y Parchg Andy Herrick, Santes Anne, Penparcau gyda chymorth Mrs Heather Evans a Mrs Lona Jones. Roedd yr Eglwys wedi ei haddurno'n hyfryd gyda llysiau a ffrwythau lleol.



Y Parchg Andy Herrick, Heather Evans & Lona Jones

Croeso Adref

Croeso adref i Tamlin Watson, Llanerchclwydau, Bont-goch sydd newydd ddychwelyd o Forocco ar ôl treulio cyfnod pellach yn y wlad yn hyfforddi'r trigolion i gael y gorau allan o'u cwn. Edrychwn ymlaen at gael adroddiad arall gan Tamlin maes o law i Bapur Pawb.

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Thellio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Elin Jones AC - O'r Cynulliad

Roedd mis Hydref mor brysur â'r arfer wrth imi fynychu digwyddiadau ar hyd a lled Ceredigion. Fodd bynnag, y mis hwn fe fynychais ddau gyfarfod ynghylch Ysbyty Bronglais a'r gwasanaethau sydd ar gael yno. Cyfarfod yr oeddwn wedi ei drefnu ar gyfer Grŵp Ymgyrchu aBer gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr



Bwrdd Iechyd Hywel Dda oedd y cyntaf. Yn ystod y cyfarfod, fe glywyd mwy am y bwriad i ymgynghori gyda'r cyhoedd ar gynlluniau i ddarparu mwy o driniaethau yn ein cymunedau ac fe gafwyd trafodaeth dda ar yr angen i gynnal ymgynghoriad agored a chynhwysfawr.

Wythnos yn ddiweddaraf, roeddwn yn falch i groesawu'r Gweinidog Iechyd i Ysbyty Bronglais er mwyn cynnal sesiwn holi ac ateb ar y cyd ar gyfer staff yr Ysbyty. Roedd modd i weithwyr godi unrhyw bryderon yn uniongyrchol gyda fi a'r Gweinidog ac rwy'n ddiolchgar iawn i Edwina Hart AC am deithio i Aberystwyth i fynychu'r sesiwn hwn.

I lawr yn Llambled, roeddwn yn falch iawn i fynychu gwasanaeth arbennig i gyflwyno Gwobr Ddeimwnt i Gynghrair Cyfeillion Cartref Hafan Deg. Rwy'n gwybod bod trigolion y cartref, ynghyd â phobl Llambled a'r ardal, yn ddiolchgar iawn am gyfraniad pwysig y staff a'r Gynghrair Cyfeillion i fywyd bob-dydd y cartref.

Ym Mhontrhydfendigaid, roedd hi'n fraint i fynychu cystadleuaeth Ysgoloriaeth Bryn Terfel yn y pafiliwn. Cafwyd cystadleuaeth dda a braf oedd gweld adeilad y pafiliwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cystadleuaeth genedlaethol fel hyn. Hoffwn longyfarch pawb oedd yn cystadlu eleni a dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

Yn olaf, mae lleoliad siop yr elusen leol Ffagl Gobaith wedi symud yn Aberystwyth ac roedd hi'n fraint i gael fy ngwahodd i agor y siop newydd yn ffurfiol yn ddiweddar. Mae Ffagl Gobaith yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy ar gyfer cleifion â chancr ac rwy'n gobeithio y bydd y lleoliad newydd yn helpu codi hyd yn oed yn fwy o arian ar gyfer gwaith yr elusen.

Peidiwch Dweud wrth y Diaconiaid

Hoffai Ruth Jên estyn gwahoddiad i ddarllenwyr *Papur Pawb* i agoriad o'i gwaith newydd gyda'r teitl bachog, ar fore Sadwrn 13eg o Dachwedd (fory os ych chi'n derbyn y papur yn boeth o'r wasg) o 10 tan 12 yn Morlan, Aberystwyth. Bydd cyfle i weld ei gwaith newydd yn y gyfres "Menywod Cymreig" yn ogystal â chael paned a sgwrs. Fe fydd stondin gacennau yno gyda'r elw'n mynd at drychineb Pacistan. Mae croeso i ddarllenwyr gyfrannu at y stondin. Bydd yr arddangfosa'n parhau yn y Morlan tan 22ain o Ragfyr.

Sioe Tal-y-bont
CINIO'R SIOE

Nos Wener 3 Rhagfyr
Gwesty'r Marine, Aberystwyth

Cwrdd am 7.00 i fwyta
am 7.30

Enwau i Janet Llwynglas
erbyn 27 Tachwedd

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cynhaliwyd cyfarfod rheolaidd o'r Cyngor nos Lun 25 Hydref, gyda'r Cynghorydd Gerwyn Jones yn y gadair.

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhian Evans adroddiad o Gyfarfod Blynnyddol Un Llais Cymru a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis. Byrdwn cyfarfod y bore oedd tanlinellu pwysigrwydd creu partneriaethau rhwng Cynghorau Bro a Thref a chyrrff cyhoeddus eraill, a'r disgwyl yw y bydd rhagor o gyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo i Gynghorau Bro dros y blynnyddoedd nesaf.

Yn dilyn cyfarfod dan arweiniad swyddogion y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, amlinellwyd beth fydd y broses ymgynghori wrth ystyried ceisiadau cynllunio am brosiectau seilwaith cenedlaethol, megis Fferm Wynt arfaethedig Nant-y-Moch. Nodwyd yr angen i gofrestru o fewn 28 diwrnod i dderbyn gwahoddiad os am gyflwyno tystiolaeth i'r ymgynghoriad.

Adroddwyd fod y Cyngor Sir bellach mewn sefyllfa i symud ymlaen i wella'r cyfarwyddiadau traffig unffordd o amgylch y Patshyn Glas. Prif fyrddwn y llythyr a dderbyniwyd gan un o swyddogion y Cyngor Sir, fodd bynnag, oedd holi'r Cyngor a oedd yn parhau i wrthwynebu codi arwyddion ychwanegol ar y Patshyn Glas gyferbyn â'r mynedfeydd i'r tafarndai. Cytunwyd i gadarnhau gwrthwynebiad y Cyngor i godi rhagor o arwyddion, a thynnu sylw unwaith eto at briodoldeb gosod arwyddion 'Dim Mynediad' ar y polion sydd eisoes yng ngheg y ffordd sy'n arwain i'r briffordd o flaen y Llew Gwyn.

Derbyniwyd gwahoddiad i wneud cais am grant o 50%

tuag at dorri prysgwydd ar lwybr hawliau tramwy cyhoeddus o fewn y gymuned. Cytunwyd y gellid manteisio ar y cyfle hwn petai'r aelodau'n medru nodi llwybr perthnasol a chael caniatâd y perchennog i wneud y gwaith.

Cytunwyd i awgrymu'r blaenoriaethau canlynol i Awdurdod Heddlu Dyfed Powys at y flwyddyn 2011/12: (i) Hygyrchedd at yr heddlu; (ii) Troseddau sy'n gysylltiedig â Chyffuriau; (iii) Plismona Gweladwy. Yn sgil y toriadau arfaethedig, cytunwyd hefyd y dylid pwysleisio'r angen ar i'r Awdurdod barhau'r lefel bresennol o wasanaeth plismona cymunedol yng nghefn gwlad Ceredigion.

Nodwyd fod y cais i godi adeilad amaethyddol amlbwrpas ar fferm Neuadd Fawr, wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod Cynllunio. Hefyd lluniwyd sylwadau ar y cais i godi estyniad i Glanaber, Cwm Tynant, ac i osod paneli solar yng ngardd Gellimanwydd.

Cytunwyd i geisio dilyn yr un drefn â'r llynedd parthed y goleuadau Nadolig a'r seremoni i'w cynnau. Cytunwyd hefyd i brynu goleuadau newydd ar gyfer y goeden yn Nhal-y-bont. Y gobaith yw cynnau'r goleuadau am 4.15 bnawn lau 2 Rhagfyr.

Adroddwyd am bryder nifer o drigolion parthed cyflymdra y mae cerbydau'n teithio ar yr A487 rhwng fferm Maesnewydd a phentref Tal-y-bont. Cytunwyd i dynnu sylw'r Asiantaeth Prifffyrdd at y pryderon hyn, gan awgrymu eu bod naill ai'n symud yr arwyddion 30 mya presennol wrth ddod i mewn i bentref Tal-y-bont o gyfeiriad Aberystwyth rhyw hanner milltir i'r de, neu fel arall yn gosod arwyddion ychwanegol 40 mya.

Bethesda, Tynant

Yn gyntaf hoffem ddiolch i swyddogion Cronfa Eleri am eu cefnogaeth eto eleni o rodd ariannol fel y gallwn gario ymlaen â mwy o waith tu mewn i'r adeilad.

Llawer o ddiolch i'r Parch Richard Lewis a ddaeth atom ddwywaith ar ôl oedfaon y prynhawn mewn capeli eraill. Roedd plant ac ieuencid Ysgol Sul Bethel yn methu bod gyda ni eleni. Gobeithio gallant ddod atom yn y dyfodol dan arweiniad Mrs Falyri Jenkins. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn iddi o'r ysgol gynradd.

Cael person i draddodi'r neges sydd yn bwysig ond mor bwysig yw cael cynulleidfa i wrando, diolchwn i bawb o'r ffyddloniaid yn arbennig i Brenda ac Elisabeth James am godi'r canu. Edrychwn ymlaen at 2011 a'ch cefnogaeth unwaith eto.

E.R.E.

Cymdeithas Defaid Mynydd

Dydd Llun 1af o Dachwedd oedd dyddiad cychwyn arbrawf wyn hyrddod y Gymdeithas. Daeth 15 o'r aelodau a 37 o wyn hyrddod i'r Prawf yn Ffald Penpompren, a bydd rhain yn cyd-bori ar borfa yn unig yn Bronwylfa, ger Wrecsam, tan ddechrau mis Ebrill. Cyflwynir Tarian Rhosgoch i'r oen hwrdd mwyaf addawol, gyda'r aelodau sydd yn cymeryd rhan yn dyfarnu 3 phwynt i'r gorau, 2 i'r ail ac 1 i'r trydydd. 'Roedd y gystadleuaeth yn uchel radd a'r buddugol yn ennill 30 pwynt a'r ail 19 pwynt. Rhif tag y Pencampwr oedd 209, wedi ei fridio gan Dafydd Tanyrallt, a'r ail tag UK 347354-1 gan Gomer a Martin James, Bont, Ponterwyd.

Gofynnais i Dafydd beth oedd tu ôl i'r llwyddiant a dyma'r ateb, "Creu cwmni o dri efo 'mrawd, Enoc, Tynygraig a ffrind, Elgan, Tynant, a phrynu hwrdd arbennig yn Sêl Llanrwst, wedi ei fridio gan Richard Pugh, Tŷ Gwyn, Sir Ddinbych, ein tri'n dewis mogied o uchel-radd, a'u troi ato yn nhymor ymlid 2009, a bum i'n lwcus," a gwenodd.

Gofynnais yr un cwestiwn i Gomer James, oedd wedi bridio'r ail, a dyma'r ateb, "Prynu hwrdd efo Rheinallt Jones, Hirnant, Ponterwyd, a dyna tad yr ail heddiw," bridwr arall a gwên ar ei wyneb.

Bydd yr wyn yn cael eu pwysu ar ôl setlo i lawr yn Bronwylfa, ac hefyd ar ddiwedd y Prawf gan Swyddogion H.C.C. a dau neu dri o'r perchnogion. Bryd hynny cewch ddarllen yr hanes yn llawn ym Mhapur Pawb.

Gareth Evans

Sefydliad y Merched, Eglwysfach

Mae'r aelodau wedi bod yn brysur yn casglu sbwriel ar hyd y ffordd trwy'r pentrefi. Wrth wneud y gwaith cloddiw yma roedd gofyn bod yn ddewr gan nad oes palmant i ymddiffyn cerddwyr ar y rhan yma'r ffordd.

Y pwyllgor am 2010/2011 yw Juliet Regan - Llywydd, Celia Groves - Trysorydd, Jill Roberts - ysgrifenydd, Wendy Fuller - ysgrifenydd cofnodion, ynghyd ag Ann Ovens, Jacqui Relphs, Judith Pearson a Libby Goodman.

Yn dilyn yr etholiad daeth Judith Hopkins gyda'i gitar i ganu. Cawsom noson fendigedig.

Llongyfarchiadau i'r dair mam-gu newydd o fewn y gangen sef Mrs Janie Agnew, Mrs Juliet Regan a Mrs Liz Spencer.

Ysgol Tal-y-bont

Gwasanaeth Diolchgarwch

Ar ddechrau mis Hydref cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch arbennig yng Nghapel Rehoboth yn Nhre Taliesin ar y cyd rhwng Ysgol Tal-y-bont ac Ysgol Llangynfelyn. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan blant y ddwy ysgol ac fe gafwyd eitemau cerddorol gan Isobel, Nansi, Tobia a Lorna.

Fel rhan o'r gwasanaeth, cafwyd anerchiadau gan rai o'r tim cenhadol a fu'n crwydro'r ardal ar "Daith Dewi Sant" yn ddiweddar. Cafwyd neges bwrpasol gan y Parch Wyn Morris hefyd. Hoffai'r ysgolion ddiolch yn fawr i John Leeding am ei gymorth gyda'r trefniadau ac i Eiriona Metcalfe am gyfeilio. Penderfynodd Cyngor Ysgol y ddwy ysgol i gefnogi'r ymgyrch i godi arian tuag at y drychineb ym Mhacistan eleni a chyflwynwyd sic o £61 i Oxfam.

Roedd hi'n braf i weld cymaint o rieni a ffrindiau'r ddwy ysgol wedi dod ynghyd i gefnogi'r arbrawf newydd yma ac efallai y bydd hyn yn esgor ar ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol eto.

Tân Gwylt

Yn ystod y mis cawsom ymweliad gan y plismon bro, Hefin Jones a Karen Hughes sy'n gweithio i'r Gwasanaeth Tân i roi cynghorion am ddiogelwch yr adeg yma o'r flwyddyn. Gwelsom rai lluniau ofnadwy o effeithiau camddefnyddio tân gwylt yn enwedig ar blant.

Canu Rala Rwdins

Cyn y Nadolig bydd Y Lolfa'n cyhoeddi llyfr o ganeuon yn seiliedig ar gymeriadau enwog Gwlad y Rwl. Mae'n braf dweud y bydd plant ysgol Tal-y-bont yn cyfrannu eu lleisiau swynol i'r cryno-ddisg sy'n cyd-fynd gyda'r llyfr. Roedd cael y cyfle i recordio'r caneuon yn brofiad pleserus ac roedd hi'n gyfle i groesawu Meinir Edwards, sy'n golygu'r gyfrol yn ôl i'r ysgol. Diolch i Miss Rhys am ddysgu'r caneuon gyda'r plant.

Trawsgwlad y cylch

Roedd hi'n braf i weld cymaint o blant yr ysgol yn cystadlu yn y gystadleuaeth flynyddol ar Gaeau'r Ficerdy yn y dref. Roedd cymaint ag 80 o blant yn rhedeg mewn rhai rاس ac fe wnaeth plant Tal-y-bont ymdrech arbennig wrth gystadlu yn erbyn eu cyfoedion. Llongyfarchiadau arbennig i Bedwyr Siencyn, Dylan Wyn Benjamin, Keira Forster Brown a Seren Taylor am ddod yn y 15 cyntaf yn eu rاس.

Ymweld â fferm Cerrig Caranau

Ar ddydd Llun y deunawfed o Hydref aeth Blwyddyn 5 a 6 ar ein beiciau i fferm organig lleol, sef Cerrig Carannau Uchaf. Cymrodd hi tua tri chwarter awr i gyrraedd y fferm. Yno fe ymunom ni gyda'r teulu Jenkins i drafod beth oedden ni yn mynd i'w weld ar ein ymweliad yno.

Yn gyntaf aethom ni i weld y gwartheg yn cael eu godro. Yna cawsom wers gyflym am beth sydd yn arbennig am y bwyd y mae'r gwartheg yn ei fwyta. Aethom am dro i ben bryncyn bach i weld y gwartheg yn pori glaswellt yn llawn meillion a gwelsom tua ugain o loi bach mewn sied. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn am y croeso arbennig. Catrin Huws

Ymweld â fferm Neuadd Fawr

Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i deulu Neuadd Fawr am eu croeso cynnes ac am baratoi'r anifeiliaid ar ein cyfer. Roedd hi'n ffrainc cael gweld y fferm a chlywed am y ffordd rydych yn ffermio.



Llythyr Joel

Llongyfarchiadau mawr i Joel Dibble am ennill cystadleuaeth gyda'r Heddlu yn ddiweddar. Dewiswyd llythyr Joel fel y gorau o Ysgol Tal-y-bont ac fel gwobr mae'n cael mynd am sawl ymweliad â Gorsaf Heddlu Aberystwyth i ddysgu am waith yr Heddlu. Ardderchog Joel. Da iawn ti.



Llyfrau Newydd

Disgrifir llyfr diweddar Gwyn Jenkins, Maesgwyn Tal-y-bont, **Byw yn y Wlad: Y Ffotograffydd yng nghefn gwlad 1850-2010** fel "Llyfr hardd o luniau atgofus yn darlunio cefn gwlad Cymru o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd y presennol." Mae dros 160 o luniau cofiadwy gan nifer o ffotograffwyr gwahanol. Mae'n llyfr hynod o ddiddorol ac i ni yn ardal *Papur Pawb* cawn weld gwaith y ffotograffydd lleol i Dal-y-bont, E O Jones (1873-1915), a'r ffotograffwyr presennol Arvid Parry Jones a'i feibion. Bydd adolygiad i'w weld yn rhifyn nesa o *Papur Pawb*.

Caneris Melyn Trefeurig / Trefeurig's Yellow Canaries yw llyfr o waith Richard E Huws, Bontgoch. Rhwng 1948 a 1953 bu Trefeurig & District United yn chwarae pêl-droed yng nghynghrair Aberystwyth a'r Cylch. Mewn pum tymor chwaraeasant 94 o gemau cynghrair gan ennill ond 13. Adroddir eu stori mewn llyfr newydd dwyieithog Caneris Melyn Trefeurig / Trefeurig's Yellow Canaries.

Mae'r llyfr nid yn unig yn rhoi hanes y tîm, ond mae'n gronid pwysig hanesyddol a chymdeithasol o oes a fu. Chwaraeai'r tîm ar gae oedd dros 700 troedfedd uwchben y môr ym Mancydarren mewn ardal ddiaffordd yng ngogledd Ceredigion, a thynnwyd chwaraewyr o bentrefi pell ac agos i'w gynrychioli. Dibynnai'r clwb yn bennaf ar chwaraewyr o bentrefi plwyf Trefeurig fel Bancydarren, Cwmerfyn, Cwmsymlog a Phen-bont Rhydybeddau, ond

yn ogystal bu'n rhaid denu chwaraewyr o bentrefi cyfagos fel Bow Street, Capel Bangor, Derwen-las, Llanbadarn Fawr, Llanfarian, Taliesin, Tal-y-bont a Thrawsgoed. Daeth nifer o fechgyn hefyd o Aberystwyth a Phenparcau, ac ymhlith y 70 a fu'n cynrychioli'r tîm roedd nifer o fyfyrwyr y brifysgol. Mae'r llyfr yn cynnwys bywgraffiad byr o bob chwaraewr, ac mae'n ddiddorol i nodi bod yn eu plith fechgyn o dras Albanaidd, Almaenaidd, Eidalaidd a Gwyddelig, yn ogystal â nifer o Saeson a ymsefydlodd yn yr ardal. Fel Inter Milan roedd Trefeurig hefyd yn dim rhyngwladol!

Yr awdur yw Richard E. Huws, cyn-aelod o staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a gyhoeddodd *The football and rugby playing fields of Wales* o wasg Y Lolfa yn 2009. Ysgrifennwyd y rhagair gan Tegwyn Jones, Bow Street, awdur lleol a fu'n chwaraewr ac yn gefnogwr Trefeurig. Ei bris yw £6 yn y siopau, neu £7 i gynnwys cludiant a phacio os archebir drwy'r post.

Cystadleuaeth

Mae'r awdur Richard E. Huws yn cynnig copi o'r llyfr i unrhywun sy'n gallu ateb y cwestiwn isod: **Pa dîm yng nghynghrair pêl-droed Lloegr sy'n cael ei adnabod fel y Caneris?** Atebion i olygydd cyffredinol *Papur Pawb* Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont cyn **3 Rhagfyr** post@garnwen.org.uk 01970 832 473

Mae eich angen chi ar ieuencid y pentre

Yn rhifyn Mehefin o *Bapur Pawb*, rhoddwyd apel ar ran Clwb Ieuencid Talybont am wirfoddolwyr i helpu ar nos Wener, rhwng 7 a 9 yr hwyr, yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Siom a gafwyd, gan ni chafwyd unrhyw

ymateb yn cynnig cymorth.

Erbyn hyn, rydym wedi gorfod cwrdd dim ond unwaith bob pythefnos gan nad oes digon o arweinwyr i gynnal clwb bob wythnos. Hoffwn roi apel eto, a gofyn a oes amser gyda chi, i'w roi i ieuencid ein pentref – byddai cael rhywun i helpu ar un nos Wener y mis yn gymorth mawr.

Rydym yn cael llawer iawn o sbort

Ogof Morus

Wrth i mi baratoi darlith ar hanes Morus Cwmrhaeadr, yr olaf i'w grogi yng Ngheredigion am ddwyn defaid, roeddwn yn ymwybodol na fues i erioed i weld Ogof Morus. Roeddwn wedi gweld y dogfennau perthnasol yn y Llyfrgell Genedlaethol a sylwi ar un ohonynt a oedd yn cynnwys y geiriau 'susp. per coll.' - bydded iddo gael ei grogi gerfydd ei wddf - ond doeddwn heb weld yr ogof lle y cuddiai Morus.

Felly ym mis Gorffennaf euthum gyda fy nghyfeillion Gwilym Huws a Hefin Llwyd i gerdded llethrau Moel Goch uwchlaw fferm Cefn Gweiriog. Dilynom Nant Ddu, sy'n llifo lawr o gyfeiriad Foel Gron, a dringo tuag at y gorlan fach sydd ar bwys y nant. Yna, ar ôl dringo am ryw filltir, troesom i'r dde i gyfeiriad Carn Wen er mwyn cyrraedd yr ogof.

Ar y daith buom yn trafod hanes Morus a dod i'r casgliad ei fod yn dipyn o ddihiryn na chafodd fawr o gydymdeimlad yn y gymdogaeth pan ddaliwyd ef yn dwyn defaid ym mis Mawrth 1799. Yn enedigol (tua 1740) o Gwmrhaeadr Fach yng nghwm Llyfnant, mae tystiolaeth fod Morus Harri (ei enw go iawn) mewn trafferthion pan oedd yn ifanc. Pan gafodd ei ddal yn dwyn defaid yn 1799, roedd yn byw yn nhyddyn Dolgelynen, yng Nghwm Ceulan, nid nepell o Blaenceulan. Ni chafodd ei arestio am ei drosedd a'i ddwyn i'r carchar tan Ebrill 1800 ac roedd sgarmes ar fuarth Dolgelynen rhyngddo ef a'i blant a'r tri Is-gwnstabl

a gafodd y dasg i'w arestio. Cynhaliwyd yr achos yn Llys y Sesiwn Fawr yn Aberteifi yn Awst 1800 a dedfrydwyd ef, yn ôl cyfraith y dydd, i'w grogi. Serch hynny, ychydig o droseddwy'r grogwyd yn y dyddiau hynny; gan amlaf byddent yn cael pardwn a'u trawsgludo i Awstralia. Dim ond y troseddwy'r gwaethaf nad oedd cydymdeimlad iddynt yn eu cymunedau byddai'n wynebu'r grobren. Mae'n amlwg felly na fu i neb yn yr ardal godi bys i achub croen Morus ac ym mis Medi 1800 fe'i crogwyd.

Wrth i ni gyrraedd lleoliad Ogof Morus, gwelsom lwynog yn dianc trwy'r creigiau. Gwelsom hefyd nad un ogof oedd yno ond cyfres o dyllau rhwng pentyrrau o gerrig mawr. Mae'n le da iawn i guddio ysbail ac i lwynogod ddianc rhag yr heliwr. Diwedd ofnadwy gafodd yr hen lwynog Morus Cwmrhaeadr yn 1800, ond mae ei enw yn parhau ar lethrau Moel Goch. Yn ogystal ag enw'r ogof, cefais ar ddeall gan Barbara Jenkins, Cefn Gweiriog, fod cae islaw i'r ogof gyda'r enw Cae Morus. Mae Morus yma o hyd felly!

Roedd yn braf gweld cymaint o bobl o'r ardal hon yn y ddarlith yn y Llyfrgell Genedlaethol pa ddiwrnod.

Gwyn Jenkins



Gwilym Huws a Hefin Llwyd wrth Ogof Morus.

gyda'r ieuencid, a theimlaf ein bod yn rhoi gwasanaeth pwysig i'r pentref.

Os na chawn gymorth, teimlaf y bydd yn rhaid edrych ar gau'r clwb ar ôl y Nadolig. Colled i'r gymuned ac yn bendant i'r ieuencid.

Cysylltwch â Ceri Morgan (832686) neu David Nutting (832027), os allwch gynnig unrhyw help.

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Mae'r llwybr at yr hen ffynnon ger Pencae wedi ei dorri'n daclus fel bod modd i bobl fynd at y ffynnon.

Tra'n aros am yr arwyddion newydd i leihau'r cyflymder ar y ffordd, datganwyd pryder am ddiogelwch y rhai sy'n croesi'r briffordd yn Nhre'r-ddôl. Pasiwyd i ofyn i'r Cyngor Sir am arwyddion sy'n rhybuddio gyrwyr am bobl yn croesi.

Derbyniwyd yr adroddiad diweddaraf ynglŷn â'r fferm wynt y bwriedir ei lleoli yn yr ardal.

Datganwyd llawenydd fod Cyngor Ceredigion yn cyflwyno'r gwasanaeth ailgylchu newydd i'r rhan yma o'r sir.

Mae'r Warden Cymunedol

yn ymweld â'r ardal o bryd i'w gilydd i nodi'r sefyllfa ynglŷn â baw cŵn. Gobeithir bod yr arwyddion newydd yn yr ardal yn atgoffa perchnogion cŵn o'u dyletswydd.

Mae'r Cyngor Cymuned yn dal i archwilio'r rhesymau am ddiffyg gwasanaeth bysiau i'r Borth ac yn ôl yn ystod oriau'r dydd.

Deallir fod Ysgol Llangynfelyn ac Ysgol Tal-y-bont wedi cychwyn ar bartneriaeth newydd a'u bod o dan reolaeth yr un prifathro, sef Mr Hefin Jones.

Edrychir ymlaen i groesawu Adam Lewis o Dre'r-ddôl i'r cyfarfod nesaf gan ei fod yn cymryd lle Ann Thomas, Taliesin, ar y Cyngor Cymuned.

Cymdeithas y Chworiydd

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd yn festri Rehoboth, Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 5 Hydref, dan lywyddiaeth Mrs Myfanwy Rowlands. Ein gwraig wadd oedd Mrs Falyri Jenkins, Tal-y-bont, a chawsom ein rhannu i bedwar tîm i gymryd rhan mewn cwis cerddorol, 'Nabod y Diwn'. Bu'r aelodau wrthi'n dyfalu beth oedd enwau deg o donau, nodi ail linell deg o ganeuon, adnabod wyneb deg o gyfansoddwyr, ac enwi deuawdau enwog. Ar ôl cystadlu brwd, tîm merched Tal-y-bont ddaeth i'r brig. Diolchwyd i Falyri am brynhawn difyr iawn gan y Parchedig Judith Morris. Megan Brickley ac Olwen Rowlands oedd yng ngofal y te.

Traffig Taliesin

Yn y rhifyn diwethaf o Bapur Pawb, cyfeiriwyd at ddamwain gas a fu yn Nhre Taliesin. Mae'r trigolion lleol yn pryderu'n arw y bydd mwy o ddamweiniau tebyg yn digwydd os na chaiff rhywbeth ei wneud i arafu cyflymder y traffig. Mae'r Cyngor Cymuned wedi galw am welliannau ers blyneddoddd, er enghraifft arwyddion cyflymder mwy effeithiol a mwy o bresenoldeb gan y camerâu cyflymder. Fel y gwyddoch, dal i aros y mae Tre Taliesin. Yn sgil hynny, mae rhai o'r pentrefwyr yn mynd ati yn awr i gasglu enwau ar ddeiseb ac yn cysylltu ag Elin Jones AC a Mark Williams AS i'w gwahodd i drefnu cyfarfod cyhoeddus i drafod pryderon y bobl leol a hynny ar fyrder cyn y ceir damwain ddifrifol iawn.

BEIC RALEIGH SPRINT AR WERTH

CYFLWR DA OND ANGEN RHYWFAINT O WAITH
£25 - 832473



Fferm Wynt Nant y Moch

Digwyddiad Lansiad Proiect

Dydd Llun 29 Tachwedd 2010 – 3pm – 8pm:
Neuadd Goffa Tal-y-Bont

Fe fydd manylion y cynllun terfynol yn ogystal â manylion ar sut yr ydym wedi ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd yn y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

Croeso cynnes i bawb. Cyfle i wybod mwy am y cynllun.

www.ffermwyntnantymoch.com

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com



Os am daci neu fws mini
**CAMBRIAN
CABS**

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

CHWARAEON

Y Gemau Cyntaf

Wedi cyfnod o ymbaratoi, chwaraewyd y gemau pêl-droed cyntaf ar Gae'r Odyn Galch yn ystod mis Hydref. Mae'r gwaith datblygu ar y cae wedi talu ar ei ganfed, gydag wyneb y maes o safon uchel a'r goliau wedi gosod ar gyfer gemau llawn ac ar gyfer ymarfer. Yn wir gwelwyd defnydd cyson o'r cae gyda'r nos wrth i fechgyn o bob oedran ymarfer yno.

Cynhaliwyd y gêm gyntaf ar y cae gan dîm oedolion Tal-y-bont ar ddydd Sadwrn 9 Hydref a daeth ugeiniau o gefnogwyr yno i wylio'r gêm yn erbyn y Borth. Gwaetha'r modd, ar ôl bod ar y blaen ar yr egwyl, blinodd y tîm yn yr ail hanner a cholli o chwe gôl i ddwy. Wyn Benjamin gafodd y ffrainc o sgorio'r gôl gyntaf ar y maes newydd. Ers hynny collwyd gêm gwpan yn erbyn Llanboidy, tîm cryf o sir Gaerfyrddin. Ar un adeg roedd Tal-y-bont ar y blaen 1-0. gyda gôl gan Carl Jones, ond ildwyd pump gol yn y chwarter awr olaf. Cipiwyd pwyntiau cyntaf y tymor bant yn erbyn Phoenix, tîm o'r Brifysgol ac ar 6 Tachwedd enillwyd y pwynt cyntaf ar Gae'r Odyn Galch, pan chwaraewyd gêm gyfartal, 2-2, yn erbyn Corris.

Yng ngêm gyntaf y tîm dan 17 mlwydd oed ar y cae ar 23 Hydref, cafwyd profiad tebyg i dîm yr oedolion. Yn erbyn tîm pwerus a phrofiadol Padarn United, roedd Tal-y-bont ar y blaen ar yr egwyl ond roedd yr ymwelwyr yn rhy gryf yn yr ail hanner, gan ennill 7-2. Er y goliau a ildwyd, roedd perfformiad y bechgyn, ac yn arbennig Hefin Hopkins yn y gôl, yn galonogol.

Gyda lwc, bydd mwy o ennill na cholli i'r timau yn y dyfodol, ond yr hyn sy'n bwysig fod cyfleusterau gwell ar gael yn lleol gan roi cyfle i bawb, sy'n dymuno, fanteisio ar hynny.



Bechgyn Tal-y-bont yn ymosod yng nghwrt cosbi Padarn.



Tîm Tal-y-bont yn gwisgo'r crysau newydd a gyflwynwyd i'r clwb gan Sean Byrne o'r Llew Gwyn.

HCD

Gofal Cartref Uniongyrchol

Ardal: Ceredigion - Tal-y-bont

Lleoliad Gwledig - gwasanaeth bws cyfyngedig

Oriau: 16 awr amser llawn yr wythnos ar gyfartaledd

Tâl: £7.50 yr awr

Enw cyswllt: Home Care Direct 0845 061 9000

Cyf: LF/WALES

Disgrifiad

Mae angen gweithwyr cymorth mewn cartref cariadus, i gynorthwyo mam sengl gyda'i dau blentyn sydd ag anghenion cymhleth. Mae angen i'r person cymwys allu mynd i'r afael â gwaith caled, allu parchu dewisiadau'r teulu a'u bywyd. Meini prawf angenrheidiol; person iach sy'n gallu gweithio o'i ben a'i bastwn ei hun. Byddai'r gallu i yrru car yn ddelfrydol ond nid yn hanfodol. Byddai o fantais pe bai'r person cymwys yn gallu siarad Cymraeg neu'n fodlon dysgu Cymraeg sylfaenol. Bydd yn rhaid i'r person allu cynorthwyo'r teulu gyda'u diddordebau sef beicio, nofio, cychod, cerdded, cerddoriaeth ac adrodd straeon. Hefyd, bydd yn rhaid gallu symud ac ymdrin ac ymgymryd â gofal personol a dyletswyddau eraill. Byddai'r swydd yn addas ar gyfer person sydd eisieu gweithio gyda phlant ag anghenion cymhleth iawn ac sydd am ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth yn y maes hwn.

Mae amrywiaeth o oriau ar gael yn ystod yr wythnos gan gynnwys penwythnosau. £7.50 yr awr

**Am fwy o fanylion, cysylltwch â HomeCareDirect.
0845 061 9000**

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bampffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**

Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimanwydd, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb
papurpawb.com

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen

Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith